



## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

### OFFERYNNAU STATUDOL

#### 2006 Rhif 31 (Cy.5)

#### BWYD, CYMRU

#### Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

#### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailldeddfu gyda newidiadau Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 (O.S. 2005/3292 (Cy.252)).

**2.** Yr oedd Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi o ran Cymru offerynnau penodol y Gymuned, y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel "Rheoliadau'r Gymuned". Offerynnau'r Gymuned sydd o dan sylw yw'r rheini a bennir yn is-baragraffau (a) i (c) o baragraff 4 isod. Drwy estyn y diffiniad o'r ymadrodd "Rheoliadau'r Gymuned" yn y Rheoliadau hyn i gynnwys offerynnau'r Gymuned a bennir yn is-baragraffau (ch) a (d) o baragraff 4 isod, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi o ran Cymru holl offerynnau'r Gymuned a bennir yn y paragraff hwnnw.

**3.** Diffinnir offerynnau'r Gymuned a bennir ym mharagraff 4 isod yn Atodlen 1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddu'r diffiniadau o offerynnau'r Gymuned a bennir yn is-baragraffau (a) i (c) o baragraff 4 isod er mwyn cymryd i ystyriaeth Reoliadau penodol y Comisiwn sydd yn dod i rym ac yn dod yn gymwys ar 11 Ionawr 2006. Mae Rheoliadau'r Comisiwn yn diwygio offerynnau hynny y Gymuned neu yn ôl y digwydd yn effeithio ar y dull y darllenir hwy.

**4. Dyma Offerynnau'r Gymuned-**

- (a) Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid bwydydd (OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.1); mae testun diwygiedig y

## NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

### STATUTORY INSTRUMENTS

#### 2006 No. 31 (W.5)

#### FOOD, WALES

#### The Food Hygiene (Wales) Regulations 2006

#### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1.** These Regulations revoke and re-enact with changes the Food Hygiene (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/3292 (W.252)).

**2.** The Food Hygiene (Wales) Regulations 2005 provided for the execution and enforcement in relation to Wales of certain Community instruments, referred to in those Regulations as "the Community Regulations". The Community instruments in question are those specified in sub-paragraphs (a) to (c) of paragraph 4 below. By extending the definition of the phrase "the Community Regulations" in these Regulations to include the Community instruments specified in sub-paragraphs (d) and (e) of paragraph 4 below, these Regulations provide for the execution and enforcement in relation to Wales of all the Community instruments specified in that paragraph.

**3.** The Community instruments specified in paragraph 4 below are defined in Schedule 1. These Regulations update the definitions of the Community instruments specified in sub-paragraphs (a) to (c) of paragraph 4 below to take account of certain Commission Regulations that both enter into force on and apply from 11 January 2006. The Commission Regulations amend those Community instruments or as the case may be affect the way that they are to be read.

**4. The Community Instruments are-**

- (a) Regulation (EC) No. 852/2004 of the European Parliament and of the Council on the hygiene of foodstuffs (OJ No. L139,

- Rheoliad hwn wedi'i osod bellach mewn Corigendwm, OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.3);
- (b) Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid (OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55; mae testun diwygiedig y Rheoliad hwn wedi'i osod bellach mewn Corigendwm OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22);
  - (c) Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl (OJ Rhif L155, 30.4.2004, t.206; mae testun diwygiedig y Rheoliad hwn wedi'i osod bellach mewn Corigendwm, OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.83);
  - (ch) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd (OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.1); a
  - (d) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2075/2005 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig (OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.60).

**5.** Y prif newidiau eraill a wneir gan y Rheoliadau hyn yw-

- (a) bod y trefniadau gorfodi blaenorol yn cael eu newid; a
- (b) bod rychwant Atodlen 5 (y modd y mae'r cynhyrchydd yn cyflenwi'n uniongyrchol feintiau bach o gig o ddfodfednod a lagomorffiaid a gigyddwyd ar y fferm) yn cael ei hymestyn yng ngoleuni Erthygl 3 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2076/2005 sy'n gosod trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004, (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004 (OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.83).

**6.** Mae'r Rheoliadau hyn-

- (a) yn creu rhagdybiaethau penodol y bwriedir bwyd penodedig, at ddibenion y Rheoliadau hyn, ar gyfer ei fwyta gan bobl (rheoliad 3);
- (b) yn darparu mai'r Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliadau'r Gymuned ac eithrio pan fo ganddi gymwyseddau dirprwyedig (rheoliad 4);
- (c) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r Gymuned (rheoliad 5);
- (ch) yn darparu bod y mesurau gorfodi canlynol ar gael mewn perthynas â gweithredydd busnes bwyd -

30.4.2004, p.1; the revised text of this Regulation is now set out in a Corrigendum, OJ No. L226, 25.6.2004, p.3);

- (b) Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin (OJ No. L139, 30.4.2004, p.55; the revised text of this Regulation is now set out in a Corrigendum, OJ No. L226, 25.6.2004, p.22);
- (c) Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption (OJ No. L155, 30.4.2004, p.206; the revised text of this Regulation is now set out in a Corrigendum, OJ No. L226, 25.6.2004, p.83);
- (d) Commission Regulation (EC) No. 2073/2005 on microbiological criteria for foodstuffs (OJ No. L338, 22.12.2005, p.1); and
- (e) Commission Regulation (EC) No. 2075/2005 laying down specific rules on official controls for *Trichinella* in meat (OJ No. L338, 22.12.2005, p.60).

**5.** The other major changes made by these Regulations are that-

- (a) the previous enforcement arrangements are altered; and
- (b) the scope of Schedule 5 (direct supply by the producer of small quantities of meat from poultry or lagomorphs slaughtered on the farm) is extended in the light of Article 3 of Commission Regulation (EC) No. 2076/2005 laying down transitional arrangements for the implementation of Regulations (EC) No. 853/2004, (EC) No. 854/2004 and (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council and amending Regulations (EC) No. 853/2004 and (EC) No. 854/2004 (OJ No. L338, 22.12.2005, p.83).

**6.** These Regulations-

- (a) create certain presumptions that, for the purposes thereof, specified food is intended for human consumption (regulation 3);
- (b) provide that the Food Standards Agency is the competent authority for the purposes of the Community Regulations except where it has delegated competences as provided for in the Community Regulations (regulation 4);
- (c) make provision for the enforcement and execution of these Regulations and of the Community Regulations (regulation 5);
- (d) provide for the following enforcement measures to be available in respect of a food business operator -

- (i) hysbysiadau gwella hylendid (rheoliad 6);
- (ii) gorchmynion gwahardd at ddibenion hylendid (rheoliad 7);
- (iii) hysbysiadau a gorchmynion gwahardd brys at ddibenion hylendid (rheoliad 8); a
- (iv) hysbysiadau camau cywiro a hysbysiadau cadw (rheoliad 9);
- (d) yn darparu, pan fo tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn wedi'i gyflawni oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithred rhyw berson arall, fod y person arall hwnnw'n euog o'r tramgwydd (rheoliad 10);
- (dd) yn darparu ei bod yn amddiffyniad mewn achos cyfreithiol am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn i'r sawl a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd (rheoliad 11);
- (e) yn darparu ar gyfer caffael a dadansoddi samplau (rheoliadau 12 a 13 yn y drefn honno);
- (f) yn darparu pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdod gorfodi; (rheoliad 14);
- (ff) yn darparu ar gyfer tramgwydd o rwystro swyddog (rheoliad 15);
- (g) yn darparu terfyn amser ar gyfer dwyn erlyniadau (rheoliad 16);
- (ng) yn darparu y bydd person sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau penodedig Rheoliad 852/2004 neu Reoliad 853/2004 neu'n methu â chydymffurfio â hwy yn euog o dramgwydd (rheoliad 17(1));
- (h) yn darparu cosbau am dramgwyddau (rheoliad 17(2) a (3));
- (i) yn darparu na fennir bod person wedi mynd yn groes i ddarpariaeth benodedig yn Rheoliad (EC) 852/2004, neu wedi methu â chydymffurfio â hi, (gofyniad bod swmp-ddeunyddiau bwyd ar ffurf hylif, gronynnau neu bowdr i'w cludo mewn daliedyddion a/neu gynwysyddion/tanceri sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cludo deunyddiau bwyd) ar yr amod bod gofynion Atodlen 3 yn cael eu bodloni (rheoliad 17 (4));
- (j) yn darparu, os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog i'r corff corfforaethol, neu berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran y swyddog neu'r person hwnnw, y bydd y swyddog neu'r person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn cael ei gyfrif yn euog o'r tramgwydd hwnnw ac
- (i) hygiene improvement notices (regulation 6),
- (ii) hygiene prohibition orders (regulation 7),
- (iii) hygiene emergency prohibition notices and orders (regulation 8), and
- (iv) remedial action notices and detention notices (regulation 9);
- (e) provide that where the commission of an offence under these Regulations is due to the act or default of some other person that other person is guilty of the offence (regulation 10);
- (f) provide that in proceedings for an offence under these Regulations it is a defence for the accused to prove that he or she took all reasonable precautions and exercised all due diligence to avoid the commission of the offence (regulation 11);
- (g) provide for the procurement and analysis of samples (regulations 12 and 13);
- (h) provide powers of entry for authorised officers of an enforcement authority (regulation 14);
- (i) create the offence of obstructing an officer (regulation 15);
- (j) provide a time limit for bringing prosecutions (regulation 16);
- (k) provide that a person who contravenes or fails to comply with specified provisions of Regulation (EC) No. 852/2004 or Regulation (EC) No. 853/2004 is guilty of an offence (regulation 17(1));
- (l) provide penalties for offences (regulation 17(2) and (3));
- (m) provide that a person is considered not to have contravened or failed to comply with a specified provision of Regulation (EC) No. 852/2004 (requirement for bulk foodstuffs in liquid, granulate or powder form to be transported in receptacles and/or containers/tankers reserved for the transport of foodstuffs) provided the requirements of Schedule 3 are complied with (regulation 17(4));
- (n) provide that where an offence under these Regulations which has been committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, an officer of the body corporate or a person purporting to act as such that officer or person as well as the body corporate is deemed to be guilty of that offence and may be proceeded against and punished accordingly (regulation 18);

y caniateir i achos cyfreithiol gael ei ddwyn yn ei erbyn ac iddo gael ei gosbi yn unol â hynny (rheoliad 18);

- (l) os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan bartneriaeth Albanaidd wedi'i gyflawni gyda chydyniad neu ymoddefiad partner, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran y partner hwnnw, y bydd y partner hwnnw, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn cael ei gyfrif yn euog o'r tramgwydd hwnnw ac y caniateir i achos cyfreithiol gael ei ddwyn yn ei erbyn ac iddo gael ei gosbi yn unol â hynny (rheoliad 19);
- (ll) yn darparu hawl i apelio ynglŷn â-
  - (i) cyflwyno hysbysiad gwella hylendid neu hysbysiad cymryd camau adfer,
  - (ii) gwirthodiad gan awdurdod gorfodi i ddyroddi tystysgrif o dan ddarpariaethau penodol i'r perwyl ei fod wedi'i fodloni bod gweithredydd busnes bwyd wedi cymryd camau i sicrhau nad yw'r amod o risg iechyd bellach wedi'i gyflawni o ran y busnes bwyd sydd o dan sylw, a
  - (iii) gwneud gorchymyn gwahardd hylendid neu orchymyn gwahardd hylendid brys (rheoliadau 20 i 22);
- (m) yn darparu ar gyfer cymhwysyo adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p. 16) (rheoliad 23);
- (n) yn darparu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dyroddi i awdurdodau bwyd godau arferion a argymhellir (rheoliad 24);
- (o) yn darparu ar gyfer diogelu swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll (rheoliad 25);
- (p) yn darparu ar gyfer dirymu neu atal dros dro ddynodiad neu, yn ôl y digwydd, penodiad swyddogion penodedig (rheoliad 26);
- (ph) yn darparu bod rhaid i unrhyw fwyd y mae swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi wedi ardystio nad yw'r bwyd hwnnw wedi'i gynhyrchu, wedi'i brosesu nac wedi'i ddosbarthu yn unol â'r Rheoliadau Hylendid, gael ei drin at ddibenion adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fel bwyd sy'n methu â chydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd (rheoliad 27);
- (r) yn darparu ar gyfer cyflwyno dogfennau (rheoliad 28);
- (rh) yn darparu bod y gofynion a nodir yn yr Atodleni canlynol yn effeithiol-
  - (i) Atodlen 3 (swmpgludo olewau hylifol neu frasterau hylifol ar longau mordwyol a swmpgludo siwgr crai dros y môr (rheoliad 29);
- (o) provide that where an offence under these Regulations which has been committed by a Scottish partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a partner that partner as well as the partnership is deemed to be guilty of that offence and may be proceeded against and punished accordingly (regulation 19);
- (p) provide a right of appeal in respect of-
  - (i) the service of a hygiene improvement notice or a remedial action notice,
  - (ii) the refusal of an enforcement authority to issue a certificate under specified provisions to the effect that they are satisfied that a food business operator has taken measures to secure that the health risk condition is no longer fulfilled with respect to the food business concerned, and
  - (iii) the making of a hygiene prohibition order or a hygiene emergency prohibition order (regulations 20 to 22);
- (q) provide for the application, for the purposes thereof, of section 9 of the Food Safety Act 1990 (1990 c. 16), but with a specified modification (regulation 23);
- (r) provide for the issue to food authorities by the National Assembly for Wales of codes of recommended practice (regulation 24);
- (s) provide for the protection of officers acting in good faith (regulation 25);
- (t) provide for the revocation or suspension of the designation or as the case may be appointment of specified officials (regulation 26);
- (u) provide that when an authorised officer of an enforcement authority has certified that any food has not been produced, processed or distributed in compliance with these Regulations and the Community Regulations, it must be treated for the purposes of section 9 of the Food Safety Act 1990 as failing to comply with food safety requirements (regulation 27);
- (v) provide for the service of documents (regulation 28);
- (w) provide that the requirements set out in the following Schedules have effect-
  - (i) Schedule 3 (bulk transport in sea-going vessels of liquid oils or fats and the bulk transport by sea of raw sugar) (regulation 29),

- (ii) Atodlen 4 (gofynion rheoli tymheredd) (rheoliad 30);
  - (iii) Atodlen 5 (y modd y mae'r cynhyrchydd yn cyflenwi'n uniongyrchol feintiau bach o gig o ddofednod a lagomorffiaid a gigyddwyd ar y fferm) (rheoliad 31); a
  - (iv) Atodlen 6 (cyfyngiadau ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl (rheoliad 32);
  - (s) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i offerynnau penodedig (rheoliad 33); a
  - (t) yn dirymu Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 (rheoliad 34).
- (ii) Schedule 4 (temperature control requirements) (regulation 30),
  - (iii) Schedule 5 (direct supply by the producer of small quantities of meat from poultry and lagomorphs slaughtered on the farm) (regulation 31), and
  - (iv) Schedule 6 (restrictions on the sale of raw milk intended for direct human consumption (regulation 32);
  - (x) make consequential amendments to specified instruments (regulation 33); and
  - (y) revoke the Food Hygiene (Wales) Regulations 2005 (regulation 34).

7. Mae Arfarniad Rheoliadol llawn am yr effaith a gaiff y Rheoliadau hyn ar gostau busnes wedi'i baratoi a'i osod yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copiâu ohono oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.

7. A full Regulatory Appraisal on the effect that these Regulations will have on the costs of business has been prepared and placed in the Library of the National Assembly for Wales. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW.

**2006 Rhif 31 (Cy.5)**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Hylendid Bwyd  
(Cymru) 2006**

*Wedi'u gwneud*

*10 Ionawr 2006*

*Yn dod i rym*

*11 Ionawr 2006*

**TREFN Y RHEOLIADAU  
RHAN I  
MATERION RHAGARWEINIOL**

1. Enwi, cychwyn a chymhwys.
2. Dehongli.
3. Rhagdybiaethau y bwriedir bwyd ar gyfer ei fwyta gan bobl.
4. Yr awdurdod cymwys.
5. Gorfodi.

**RHAN II  
Y PRIF DDARPARIAETHAU**

6. Hysbysiadau gwella hylendid.
7. Gorchmynion gwahardd at ddibenion hylendid.
8. Hysbysiadau a gorchmynion gwahardd brys at ddibenion hylendid.
9. Hysbysiadau camau cywiro a hysbysiadau cadw.
10. Tramgwyddau oherwydd bai person arall.
11. Amddiffyniad diwydrwydd dyladwy.

**RHAN III  
GWEINYDDU A GORFODI**

12. Caffael samplau.
13. Dadansoddi etc. samplau.
14. Pwerau mynediad.
15. Rhwystro etc. swyddogion.
16. Y terfyn amser ar gyfer erlyniadau.
17. Tramgwyddau a chosbau.
18. Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol.

**2006 No. 31 (W.5)**

**FOOD, WALES**

**The Food Hygiene (Wales)  
Regulations 2006**

*Made*

*10 January 2006*

*Coming into force*

*11 January 2006*

**ARRANGEMENT OF REGULATIONS**

**PART 1  
PRELIMINARY**

1. Title, commencement and application.
2. Interpretation.
3. Presumptions that food is intended for human consumption.
4. Competent authority.
5. Enforcement.

**PART 2  
MAIN PROVISIONS**

6. Hygiene improvement notices.
7. Hygiene prohibition orders.
8. Hygiene emergency prohibition notices and orders.
9. Remedial action notices and detention notices.
10. Offences due to fault of another person.
11. Defence of due diligence.

**PART 3  
ADMINISTRATION AND ENFORCEMENT**

12. Procurement of samples.
13. Analysis etc. of samples.
14. Powers of entry.
15. Obstruction etc. of officers.
16. Time limit for prosecutions.
17. Offences and penalties.
18. Offences by bodies corporate.

19. Tramgyddau gan bartneriaethau Albanaidd.
20. Yr hawl i apelio.
21. Apelau i Lys y Goron.
22. Apelau yn erbyn hysbysiadau gwella hylendid a hysbysiadau camau cywiro.
23. Cymhwysyo adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

#### RHAN IV DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL

24. Pŵer i ddyroddi codau arferion a argymhellir.
25. Amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddi dwyll.
26. Dirymu dynodiadau a phenodiadau a'u hatal dros dro.
27. Bwyd nad yw wedi'i gynhyrchu, wedi'i brosesu nac wedi'i ddosbarthu yn unol â'r Rheoliadau Hylendid.
28. Cyflwyno dogfennau.
29. Swmpgludo oleau hylifol neu frasterau hylifol ar longau mordwyol a swmpgludo siwgr crai dros y môr
30. Gofynion rheoli tymheredd.
31. Y modd y mae'r cynhyrchydd yn cyflenwi'n uniongyrchol feintiau bach o gig o ddofednod a lagomorffiaid a gigyddwyd ar y fferm.
32. Cyfyngiadau ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl a diwygiadau i Reoliadau Labelu Bwyd 1996.
33. Diwygiadau Canlyniadol.
34. Dirymiad.

#### YR ATODLENNI

- |             |   |
|-------------|---|
| ATODLEN 1 — | DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH Y GYMUNED.  |
| ATODLEN 2 — | DARPARIAETHAU CYMUNEDOL PENODEDIG.  |
| ATODLEN 3 — | SWMPGLUDO OLEWAU HYLIFOL NEU FRASTERAU HYLIFOL AR LONGAU MORDWYOL A SWMPGLUDO SIWGR CRAI DROS Y MÔR.                          |
| ATODLEN 4 — | GOFYNION RHEOLI TYMHEREDD.  |
| ATODLEN 5 — | Y MODD Y MAE'R CYNHYRCHYDD YN CYFLENWI'N UNIONGYRCHOL FEINTIAU BACH O GIG O DDOFEDNOD A LAGOMORFFIAID A GIGYDDWYD AR Y FFERM. |

19. Offences by Scottish partnerships.
20. Right of appeal.
21. Appeals to Crown Court.
22. Appeals against hygiene improvement notices and remedial action notices.
23. Application of section 9 of the Food Safety Act 1990.

#### PART 4 MISCELLANEOUS AND SUPPLEMENTARY PROVISIONS

24. Power to issue codes of recommended practice.
25. Protection of officers acting in good faith.
26. Revocation and suspension of designations and appointments.
27. Food which has not been produced, processed or distributed in accordance with the Hygiene Regulations.
28. Service of documents.
29. Bulk transport in sea-going vessels of liquid oils or fats and the bulk transport by sea of raw sugar.
30. Temperature control requirements.
31. Direct supply by the producer of small quantities of meat from poultry and lagomorphs slaughtered on the farm.
32. Restrictions on the sale of raw milk intended for direct human consumption and amendments to the Food Labelling Regulations 1996.
33. Consequential Amendments.
34. Revocation.

#### SCHEDULES

- |              |  |
|--------------|--|
| SCHEDULE 1 — | DEFINITIONS OF COMMUNITY LEGISLATION.  |
| SCHEDULE 2 — | SPECIFIED COMMUNITY PROVISIONS.  |
| SCHEDULE 3 — | BULK TRANSPORT IN SEA-GOING VESSELS OF LIQUID OILS OR FATS AND THE BULK TRANSPORT BY SEA OF RAW SUGAR.         |
| SCHEDULE 4 — | TEMPERATURE CONTROL REQUIREMENTS.  |
| SCHEDULE 5 — | DIRECT SUPPLY BY THE PRODUCER OF SMALL QUANTITIES OF MEAT FROM POULTRY AND LAGOMORPHS SLAUGHTERED ON THE FARM. |

ATODLEN 6 —	CYFYNGIADAU AR WERTHU LLAETH CRAI A FWRIEDIR AR GYFER EI YFED YN UNIONGYRCHOL GAN BOBL.
ATODLEN 7 —	DIWYGIADAU CANLYNIADOL.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeidd 1972(2) o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(3) ac sydd bellach wedi'u breinio yn ddo(4), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf Diogelwch Bwyd i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar Ûl ymgynghori cyhoeddus agored a thryloyw fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(5), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

## RHAN I

### MATERION RHAGARWEINIOL

#### Enwi, cychwyn a chymhwysyo

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, deuant i rym ar 11 Ionawr 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

#### Dehongli

- 2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-  
ystyr "yr Asiantaeth" ("the Agency") yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;  
mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr y mae "food authority" yn ei ddwyn yn rhinwedd adran 5(1A) o'r Ddeddf;

SCHEDULE 6 —	RESTRICTIONS ON THE SALE OF RAW MILK INTENDED FOR DIRECT HUMAN CONSUMPTION.
--------------	--

SCHEDULE 7 —	CONSEQUENTIAL AMENDMENTS.
--------------	------------------------------

The National Assembly for Wales, being designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to measures relating to food (including drink), including the primary production of food, in exercise of the powers conferred by that section, and in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(e) of the Food Safety Act 1990(3) and now vested in it(4), having had regard in accordance with section 48(4A) of the Food Safety Act to relevant advice given by the Food Standards Agency and after open and transparent public consultation both as required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(5), makes the following Regulations:

## PART 1

### PRELIMINARY

#### Title, commencement and application

1. The title of these Regulations is the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006, they come into force on 11 January 2006, and apply in relation to Wales.

#### Interpretation

- 2.-(1) In these Regulations-  
"the Act" ("y Ddeddf") means the Food Safety Act 1990(6);  
"the Agency" ("yr Asiantaeth") means the Food Standards Agency;

(1) O.S. 2005/1971.

(2) 1972 p.68.

(3) 1990 p.16.

(4) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gymlliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cymlliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o'r Ddeddf Safonau Bwyd.

(5) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

(1) S.I. 2005/1971.

(2) 1972 c.68.

(3) 1990 c.16.

(4) Functions of the Secretary of State under the Food Safety Act 1990, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the Food Standards Act.

(5) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Regulation (EC) No. 1642/2003 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L245, 29.9.2003, p.4).

(6) 1990 c. 16.

ystyr “awdurdod gorfodi” (“*enforcement authority*”) yw'r awdurdod sy'n gyfrifol, yn rhinwedd rheoliad 5, dros orfodi a gweithredu'r Rheoliadau Hylendid;

ystyr “darpariaeth Gymunedol benodedig” (“*specified Community provision*”) yw unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliadau'r Gymuned a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 2 ac y mae pwnc y ddarpariaeth honno wedi'i ddisgrifio yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1);

mae “mangre” (“*premises*”) yn cynnwys unrhyw sefydliad, unrhyw le, cerbyd, stondin neu adeiladwaith symudol ac unrhyw long neu awyren;

mae i “Rheoliad 178/2002” (“*Regulation 178/2002*”), “Rheoliad 852/2004” (“*Regulation 852/2004*”), “Rheoliad 853/2004” (“*Regulation 853/2004*”), “Rheoliad 854/2004” (“*Regulation 854/2004*”), “Cyfarwyddeb 2004/41” (“*Directive 2004/41*”), “Rheoliad 882/2004” (“*Regulation 882/2004*”), “Rheoliad 1688/2005” (“*Regulation 1688/2005*”), “Rheoliad 2073/2005” (“*Regulation 2073/2005*”), “Rheoliad 2074/2005” (“*Regulation 2074/2005*”), “Rheoliad 2075/2005” (“*Regulation 2075/2005*”) a “Rheoliad 2076/2005” (“*Regulation 2076/2005*”) yr ystyr a roddir iddynt yn Úl eu trefn yn Atodlen 1;

ystyr “y Rheoliadau Hylendid” (“*the Hygiene Regulations*”) yw'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r Gymuned;

ystyr “Rheoliadau'r Gymuned” (“*the Community Regulations*”) yw Rheoliad 852/2004, Rheoliad 853/2004, Rheoliad 854/2004, Rheoliad 2073/2005 a Rheoliad 2075/2005; ac

ystyr “swyddog awdurdodedig” (“*authorised officer*”), o ran awdurdod gorfodi, yw unrhyw berson (boed yn swyddog i'r awdurdod neu beidio) sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod hwnnw, naill ai'n gyffredinol neu'n arbennig, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau Hylendid.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, ac eithrio'r un a ddiffinnir ym mharagraff (1), ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Ddeddf, yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn y Ddeddf.

“authorised officer” (“*swyddog awdurdodedig*”), in relation to an enforcement authority, means any person (whether or not an officer of the authority) who is authorised by them in writing, either generally or specially, to act in matters arising under the Hygiene Regulations;

“the Community Regulations” (“*Rheoliadau'r Gymuned*”) means Regulation 852/2004, Regulation 853/2004, Regulation 854/2004, Regulation 2073/2005 and Regulation 2075/2005;

“enforcement authority” (“*awdurdod gorfodi*”) means the authority which, by virtue of regulation 5, is responsible for enforcing and executing the Hygiene Regulations;

“food authority” (“*awdurdod bwyd*”) has the meaning that it bears by virtue of section 5(1A) of the Act;

“the Hygiene Regulations” (“*y Rheoliadau Hylendid*”) means these Regulations and the Community Regulations;

“premises” (“*mangre*”) includes any establishment, any place, vehicle, stall or moveable structure and any ship or aircraft;

“Regulation 178/2002” (“*Rheoliad 178/2002*”), “Regulation 852/2004” (“*Rheoliad 852/2004*”), “Regulation 853/2004” (“*Rheoliad 853/2004*”), “Regulation 854/2004” (“*Rheoliad 854/2004*”), “Directive 2004/41” (“*Cyfarwyddeb 2004/41*”), “Regulation 882/2004” (“*Rheoliad 882/2004*”), “Regulation 1688/2005” (“*Rheoliad 1688/2004*”), “Regulation 2073/2005” (“*Rheoliad 2073/2005*”), “Regulation 2074/2005” (“*Rheoliad 2074/2005*”), “Regulation 2075/2005” (“*Rheoliad 2075/2005*”) and “Regulation 2076/2005” (“*Rheoliad 2076/2005*”) have the meanings respectively given to them in Schedule 1; and

“specified Community provision” (“*darpariaeth Gymunedol benodedig*”) means any provision of the Community Regulations that is specified in column 1 of Schedule 2 and whose subject-matter is described in column 2 of that Schedule.

(2) Subject to paragraph (3), any expression other than one defined in paragraph (1) that is used both in these Regulations and in the Act has the meaning it bears in the Act.

(1) 1990 p.16.

(3) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn Rheoliad 178/2002 neu Reoliadau'r Gymuned yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn Rheoliad 178/2002 neu Reoliadau'r Gymuned yn ôl y digwydd.

(4) Pan gaiff unrhyw sywddogaethau o dan y Ddeddf eu haseinio-

- (a) drwy orchymyn o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Haint) 1984(1), i awdurdod iechyd porthladd neu
- (b) drwy orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(2), i gyd-bwyllgor dros ranbarth unedig;

dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod yr aseiniwyd hwy iddo.

(5) Pan fyddai unrhyw gyfnod o lai na saith niwrnod a bennir yn y Rheoliadau hyn, ar wahân i'r paragraff hwn, yn cynnwys unrhyw ddiwrnod sydd-

- (a) yn ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn ddydd Nadolig neu'n ddydd Gwener y Grogith; neu
- (b) yn ddiwrnod sy'n wyl y banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(3),

hepgorir y diwrnod hwnnw o'r cyfnod.

### Rhagdybiaethau y bwriedir bwyd ar gyfer ei fwyta gan bobl

3.-(1) Mae'r paragraffau canlynol yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid rhagdybio, hyd nes y profir y gwrthwyneb, fod unrhyw fwyd a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer ei fwyta gan bobl, os yw wedi'i roi ar y farchnad neu wedi'i gynnig, wedi'i arddangos neu wedi'i gadw i'w roi ar y farchnad, wedi cael ei roi ar y farchnad neu, yn ôl y digwydd, y bwriadwyd neu y bwriedir ei roi ar y farchnad ar gyfer ei fwyta gan bobl.

(3) Rhagdybir, hyd nes y profir y gwrthwyneb, y bwriedir y canlynol, sef-

- (a) unrhyw fwyd a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer ei fwyta gan bobl ac a geir ar fangre a ddefnyddir ar gyfer paratoi neu storio'r bwyd hwnnw neu ar gyfer ei roi ar y farchnad; a
- (b) unrhyw eitem neu sylwedd a ddefnyddir yn gyffredin i weithgynhyrchu bwyd ar gyfer ei fwyta gan bobl ac a geir ar fangre a ddefnyddir ar gyfer paratoi neu storio'r bwyd hwnnw neu ar gyfer ei roi ar y farchnad

(1) 1984 p.22; amnewidiwyd adran 7(3)(d) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd (1990 p.16).

(2) 1936 p.49; mae adran 6 i'w darllen gyda pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(3) 1971 p.80.

(3) Unless the context otherwise requires, any expression used both in these Regulations and in Regulation 178/2002 or the Community Regulations has the meaning it bears in Regulation 178/2002 or the Community Regulations, as the case may be.

(4) Where any functions under the Act are assigned-

- (a) by an order under section 2 of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), to a port health authority; or
- (b) by an order under section 6 of the Public Health Act 1936(2), to a joint board for a united district,

any reference in these Regulations to a food authority shall be construed, so far as relating to those functions, as a reference to the authority to whom they are so assigned.

(5) Where, apart from this paragraph, any period of less than seven days which is specified in these Regulations would include any day which is-

- (a) a Saturday, a Sunday, Christmas Day or Good Friday; or
- (b) a day which is a bank holiday under the Banking and Financial Dealings Act 1971(3),

that day will be excluded from the period.

### Presumptions that food is intended for human consumption

3.-(1) The following paragraphs apply for the purposes of these Regulations.

(2) Any food commonly used for human consumption will, if placed on the market or offered, exposed or kept for placing on the market, be presumed, until the contrary is proved, to have been placed on the market or, as the case may be, to have been or to be intended for placing on the market for human consumption.

(3) The following, namely-

- (a) any food commonly used for human consumption which is found on premises used for the preparation, storage, or placing on the market of that food; and
- (b) any article or substance commonly used in the manufacture of food for human consumption which is found on premises used for the preparation, storage or placing on the market of that food,

(1) 1984 c.22; section 7(3)(d) was substituted by paragraph 27 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990 (1990 c.16).

(2) 1936 c.49; section 6 is to be read with paragraph 1 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990.

(3) 1971 c.80.

ar gyfer ei roi ar y farchnad, neu ar gyfer gweithgynhyrchu bwyd i'w roi ar y farchnad, ar gyfer ei fwyta gan bobl.

(4) Rhagdybir, hyd nes y profir y gwrthwyneb, y bwriedir unrhyw eitem neu sylwedd y mae modd ei defnyddio neu ei ddefnyddio i fod yn gyfansoddyn unrhyw fwyd neu i baratoi unrhyw fwyd a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer ei fwyta gan bobl ac a geir ar fangre lle mae'r bwyd hwnnw'n cael ei baratoi, ar gyfer defnydd o'r fath.

## **Yr awdurdod cymwys**

4. Yr Asiantaeth yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliadau'r Gymuned ac eithrio pan fo wedi dirprwyo cymwyseddau fel y darperir ar ei gyfer yn y Rheoliadau hynny.

## **Gorfodi**

5.-(1) O ran unrhyw weithredydd busnes bwyd y mae Rheoliad 852/2004 yn gymwys i'w weithrediadau ond nad yw Rheoliad 853/2004 yn gymwys iddynt-

- (a) rhaid i'r Asiantaeth neu'r awdurdod bwyd y mae'r gweithredydd busnes bwyd yn cyflawni ei weithrediadau yn ei ardal orfodi a gweithredu'r Rheoliadau Hylendid i'r graddau y mae'r gweithredydd o dan sylw yn cyflawni gwaith cynhyrchu sylfaenol a'r gweithrediadau cysylltiedig hynny a restrir ym mharagraff 1 o Ran AI o Atodiad I i Reoliad 852/2004 heblaw'r gweithrediadau cysylltiedig a ddisgrifir yn is-baragraffau (a) ac (c) o'r paragraff hwnnw i'r graddau y maent yn ymwneud ag anifeiliaid hela gwylt; a
- (b) rhaid i'r awdurdod bwyd y mae'r gweithredydd busnes bwyd yn cyflawni ei weithrediadau yn ardal yr awdurdod bwyd hwnnw orfodi a gweithredu'r Rheoliadau Hylendid i'r graddau y mae'r gweithredydd o dan sylw yn cyflawni gwaith cynhyrchu sylfaenol a'r gweithrediadau nad ydynt yn cael eu gorfodi a'u gweithredu gan yr Asiantaeth yn unol ag is-baragraff (a).

(2) O ran unrhyw weithredydd busnes bwyd y mae Rheoliad 852/2004 a Rheoliad 853/2004 ill dau yn gymwys i'w weithrediadau-

- (a) rhaid i'r Asiantaeth orfodi a gweithredu'r Rheoliadau Hylendid i'r graddau y mae'r gweithredydd o dan sylw yn cyflawni gweithrediadau mewn perthynas â'r sefydliadau a'r gweithgareddau canlynol
  - (i) lladd-dai,
  - (ii) sefydliadau sy'n trin anifeiliaid hela, neu
  - (iii) safleoedd torri sy'n rhoi cig ffres ar y farchnad, a

will be presumed, until the contrary is proved, to be intended for placing on the market, or for manufacturing food for placing on the market, for human consumption.

(4) Any article or substance capable of being used in the composition or preparation of any food commonly used for human consumption which is found on premises on which that food is prepared will, until the contrary is proved, be presumed to be intended for such use.

## **Competent authority**

4. The competent authority for the purposes of the Community Regulations is the Agency except where it has delegated competencies as provided for in those Regulations.

## **Enforcement**

5.-(1) In respect of any food business operator to whose operations Regulation 852/2004 applies but Regulation 853/2004 does not apply-

- (a) the Agency or the food authority in whose area the food business operator carries out his or her operations must enforce and execute the Hygiene Regulations in so far as the operator concerned is carrying out primary production and those associated operations listed in paragraph 1 of Part AI of Annex I to Regulation 852/2004 other than the associated operations described in sub-paragraphs (a) and (c) of that paragraph to the extent that they concern wild game; and
- (b) the food authority in whose area the food business operator carries out his or her operations must enforce and execute the Hygiene Regulations in so far as the operator concerned is carrying out operations which are not executed and enforced by the Agency or the food authority as provided for in sub-paragraph (a).

(2) In respect of any food business operator to whose operations both Regulation 852/2004 and Regulation 853/2004 apply-

- (a) the Agency must enforce and execute the Hygiene Regulations in so far as the operator concerned is carrying out operations in relation to
  - (i) a slaughterhouse,
  - (ii) a game handling establishment, or
  - (iii) a cutting plant; and

- (b) rhaid i'r Asiantaeth neu'r awdurdod bwyd y mae'r gweithredydd busnes bwyd yn cyflawni ei weithrediadau yn ardal yr awdurdod bwyd hwnnw orfodi a gweithredu'r Rheoliadau Hylendid i'r graddau y mae'r gweithredydd o dan sylw yn cyflawni gwaith cynhyrchu sylfaenol a'r gweithrediadau nad ydynt yn cael eu gorfol a'u gweithredu gan yr Asiantaeth yn unol ag is-baragraff (a).

(3) O ran-

- (a) canolfannau casglu a thanerdai sy'n cyflenwi deunyddiau crai ar gyfer cynhyrchu gelatin a fwriedir ar gyfer ei fwyta gan bobl yn unol â, pharagraff 5 o Bennod I Adran XIV o Atodiad III i Reoliad 853/2004; a
- (b) canolfannau casglu a thanerdai sy'n cyflenwi deunyddiau crai ar gyfer cynhyrchu collagen a fwriedir ar gyfer ei fwyta gan bobl yn unol â, pharagraff 5 o Bennod I Adran XV o Atodiad III i Reoliad 853/2004,

rhaid i'r awdurdod bwyd y lleolir y ganolfan gasglu neu'r tanerdy o dan sylw yn ei ardal orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn.

(4) Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal mewn perthynas â'r materion a reoleiddir gan-

- (a) Atodlenni 3 i 5; a
- (b) Atodlen 6 i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl ac eithrio llaeth buchod crai.

(5) Rhaid i'r Asiantaeth orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r materion a reoleiddir gan Atodlen 6 i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â llaeth buchod crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl.

(6) Yn y rheoliad hwn-

ystyr "safle torri" ("cutting plant") yw sefydliad a ddefnyddir ar gyfer tynnu esgyrn a/neu dorri cig ffres er mwyn ei roi ar y farchnad ac-

- (a) sydd wedi'i gymeradwyo neu wedi'i gymeradwyo'n amodol o dan Erthygl 31(2) o Reoliad 882/2004; neu
- (b) a oedd (er ei fod heb y gymeradwyaeth neu'r gymeradwyaeth amodol y mae ei hangen arno o dan erthygl 4(3) o Reoliad 853/2004) yn gweithredu ar 31 Rhagfyr 2005 fel mangre dorri drwyddedig o dan Reoliadau Cig Ffres

- (b) the Agency or the food authority in whose area the food business operator carries out his or her operations must enforce and execute the Hygiene Regulations in so far as the operator concerned is carrying out operations in relation to any establishment that is not specified in sub-paragraph (a).

(3) In respect of -

- (a) collection centres and tanneries supplying raw material for the production of gelatine intended for human consumption pursuant to paragraph 5 of Chapter I of Section XIV of Annex III to Regulation 853/2004; and
- (b) collection centres and tanneries supplying raw material for the production of collagen intended for human consumption pursuant to paragraph 5 of Chapter I of Section XV of Annex III to Regulation 853/2004,

the food authority in whose area the collection centre or tannery concerned is situated must enforce and execute the Hygiene Regulations.

(4) Each food authority must enforce and execute these Regulations in its area in relation to the matters regulated by-

- (a) Schedules 3 to 5; and
- (b) Schedule 6 in so far as it applies in relation to raw milk intended for direct human consumption other than raw cows' milk.

(5) The Agency must enforce and execute these Regulations in relation to the matters regulated by Schedule 6 in so far as it applies in relation to raw cows' milk intended for direct human consumption.

(6) In this regulation-

"cutting plant" ("safle torri") means an establishment which is used for boning and/or cutting up fresh meat for placing on the market and which-

- (a) is approved or conditionally approved under Article 31(2) of Regulation 882/2004; or
- (b) (although lacking the approval or conditional approval that it requires under Article 4(3) of Regulation 853/2004) was, on 31 December 2005, operating as licensed cutting premises under the Fresh Meat (Hygiene and Inspection)

(Hylendid ac Arolygu) 1995(1) neu Reoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela a Ffermir a Chig Cwningod (Hylendid ac Arolygu) 1995(2);

ystyr “sefydliad trin anifeiliaid hela” (“*game-handling establishment*”) yw unrhyw sefydliad lle caiff anifeiliaid hela a chig anifeiliaid hela a geir ar ôl hela eu paratoi i’w rhoi ar y farchnad ac-

- (a) sydd wedi’i gymeradwyo neu wedi’i gymeradwyo’n amodol o dan Erthygl 31(2) o Reoliad 882/2004; neu
- (b) (er nad oes ganddo’r gymeradwyaeth neu’r gymeradwyaeth amodol sy’n ofynnol o dan Erthygl 4(3) o Reoliad 853/2004) a oedd, ar 31 Rhagfyr 2005, yn gweithredu fel cyfleuster prosesu anifeiliaid hela gwylt trwyddedig o dan Reoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Arolygu 1995(3); ac

ystyr “lladd-dy” (“*slaughterhouse*”) yw sefydliad a ddefnyddir i gigydda a thrin anifeiliaid, y mae eu cig wedi’i fwriadu i’w fwyta gan bobl ac-

- (a) sydd wedi’i gymeradwyo neu wedi’i gymeradwyo’n amodol o dan Erthygl 31(2) o Reoliad 882/2004; neu
- (b) (er nad oes ganddo’r gymeradwyaeth neu’r gymeradwyaeth amodol sy’n ofynnol o dan Erthygl 4(3) o Reoliad 853/2004) a oedd, ar 31 Rhagfyr 2005, yn gweithredu fel lladd-dy trwyddedig o dan Reoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Arolygu) 1995 neu Reoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela a Ffermir a Chig Cwningod (Hylendid ac Arolygu) 1995.

## RHAN II

### Y PRIF DDARPARIAETHAU

#### Hysbysiadau gwella hylendid

6.-(1) Os bydd gan swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi seiliau rhesymol dros gredu bod gweithredydd busnes bwyd yn methu â chydymffurfio â’r Rheoliadau Hylendid, caiff y swyddog drwy hysbysiad a gyflwynir i’r person hwnnw (hysbysiad y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel “hysbysiad gwella hylendid”)-

- (a) datgan seiliau’r swyddog dros gredu bod y gweithredydd busnes bwyd yn methu, chydymffurfio â’r Rheoliadau Hylendid;
- (b) pennu’r materion sy’n golygu bod y gweithredydd busnes bwyd wedi methu, chydymffurfio â’r Rheoliadau Hylendid;
- (c) pennu’r mesurau y mae’n rhaid i’r gweithredydd busnes bwyd eu cymryd, ym

Regulations 1995(1) or the Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995(2);

“game-handling establishment” (“*sefydliad trin anifeiliaid hela*”) means any establishment in which game and game meat obtained after hunting are prepared for placing on the market and which-

- (a) is approved or conditionally approved under Article 31(2) of Regulation 882/2004; or
- (b) (although lacking the approval or conditional approval that it requires under Article 4(3) of Regulation 853/2004) was, on 31 December 2005, operating as a licensed wild game processing facility under the Wild Game Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995(3); and

“slaughterhouse” (“*lladd-dy*”) means an establishment used for slaughtering and dressing animals, the meat of which is intended for human consumption and which-

- (a) is approved or conditionally approved under Article 31(2) of Regulation 882/2004; or
- (b) (although lacking the approval or conditional approval that it requires under Article 4(3) of Regulation 853/2004) was, on 31 December 2005, operating as a licensed slaughterhouse under the Fresh Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995 or the Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995.

## PART 2

### MAIN PROVISIONS

#### Hygiene improvement notices

6.-(1) If an authorised officer of an enforcement authority has reasonable grounds for believing that a food business operator is failing to comply with the Hygiene Regulations, the officer may by a notice served on that person (in these Regulations referred to as a “hygiene improvement notice”)-

- (a) state the officer’s grounds for believing that the food business operator is failing to comply with the Hygiene Regulations;
- (b) specify the matters which constitute the food business operator’s failure to comply;
- (c) specify the measures which, in the officer’s opinion, the food business operator must take

(1) O.S. 1995/539, a ddirymir gan y Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 1995/540, a ddirymir gan y Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 1995/2148, a ddirymir gan y Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 1995/539, revoked by these Regulations.

(2) S.I. 1995/540, revoked by these Regulations.

(3) S.I. 1995/2148, revoked by these Regulations.

- marn y swyddog, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio; ac
- (ch) ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredydd busnes bwyd gymryd y mesurau hynny, neu'r mesurau sydd o leiaf yn gyfwerth â hwy, o fewn unrhyw gyfnod (heb fod yn llai na 14 diwrnod) a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Bydd unrhyw berson sy'n methu, chydymffurfio â hysbysiad gwella hylendid yn euog o dramgydd.

### Gorchmynion gwahardd at ddibenion hylendid

#### 7.-(1) Os-

- (a) y caiff gweithredydd busnes bwyd ei gollfarnu o dramgydd o dan y Rheoliadau hyn; a
- (b) y caiff y llys y collfarnwyd y gweithredydd felly ganddo neu ger ei fron ei fodloni bod yr amod ynglŷn â risg iechyd wedi'i fodloni o ran y busnes bwyd o dan sylw,

bydd y llys yn gosod y gwaharddiad priodol drwy orchymyn.

(2) Bodlonir yr amod ynglŷn â risg iechyd mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd os yw unrhyw un o'r canlynol yn cynnwys risg o niwed i iechyd (gan gynnwys unrhyw nam, boed hwnnw'n barhaol neu dros dro), sef-

- (a) defnyddio at ddibenion y busnes unrhyw broses neu driniaeth;
- (b) adeiladu unrhyw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes, neu ddefnyddio at y dibenion hynny unrhyw gyfarpar; ac
- (c) sefyllfa neu gyflwr unrhyw fangre neu gyfarpar a ddefnyddir at ddibenion y busnes.

#### (3) Y gwaharddiad priodol yw-

- (a) mewn achos sy'n dod o dan is-baragraff (a) o baragraff (2), gwaharddiad ar ddefnyddio proses neu driniaeth at ddibenion y busnes;
- (b) mewn achos sy'n dod o dan is-baragraff (b) o'r paragraff hwnnw, gwaharddiad ar ddefnyddio'r fangre neu'r cyfarpar at ddibenion y busnes neu unrhyw fusnes bwyd arall o'r un dosbarth neu ddisgrifiad; ac
- (c) mewn achos sy'n dod o dan is-baragraff (c) o'r paragraff hwnnw, gwaharddiad ar ddefnyddio'r fangre neu'r cyfarpar at ddibenion unrhyw fusnes bwyd.

#### (4) Os-

- (a) y bydd gweithredydd busnes bwyd yn cael ei gollfarnu o dramgydd o dan y Rheoliadau hyn; a

in order to secure compliance; and

- (d) require the food business operator to take those measures, or measures which are at least equivalent to them, within such period (not being less than 14 days) as may be specified in the notice.

(2) Any person who fails to comply with a hygiene improvement notice will be guilty of an offence.

### Hygiene prohibition orders

#### 7.-(1) If-

- (a) a food business operator is convicted of an offence under these Regulations; and
- (b) the court by or before which the operator is so convicted is satisfied that the health risk condition is fulfilled with respect to the food business concerned,

the court will by an order impose the appropriate prohibition.

(2) The health risk condition is fulfilled with respect to any food business if any of the following involves risk of injury to health (including any impairment, whether permanent or temporary), namely-

- (a) the use for the purposes of the business of any process or treatment;
- (b) the construction of any premises used for the purposes of the business, or the use for those purposes of any equipment; and
- (c) the state or condition of any premises or equipment used for the purposes of the business.

#### (3) The appropriate prohibition is-

- (a) in a case falling within sub-paragraph (a) of paragraph (2), a prohibition on the use of the process or treatment for the purposes of the business;
- (b) in a case falling within sub-paragraph (b) of that paragraph, a prohibition on the use of the premises or equipment for the purposes of the business or any other food business of the same class or description; and
- (c) in a case falling within sub-paragraph (c) of that paragraph, a prohibition on the use of the premises or equipment for the purposes of any food business.

#### (4) If-

- (a) a food business operator is convicted of an offence under these Regulations; and

- (b) y bydd y llys y cafodd y gweithredydd ei gollfarnu felly ganddo neu ger ei fron yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny o dan holl amgylchiadau'r achos,

caiff y llys, drwy orchymyn, osod gwaharddiad a fyddai'n atal y gweithredydd busnes bwyd rhag cymryd rhan yng ngwaith rheoli unrhyw fusnes bwyd, neu unrhyw fusnes bwyd o ddosbarth neu ddisgrifiad a bennir yn y gorchymyn.

(5) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn o dan baragraff (1) neu (4) (gorchymyn y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid"), rhaid i'r awdurdod gorfodi-

- (a) cyflwyno copi o'r gorchymyn i'r gweithredydd busnes bwyd perthnasol; a
- (b) yn achos gorchymyn a wnaed o dan baragraff (1), gosod copi o'r gorchymyn mewn lle amlwg ar unrhyw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes bwyd ac y mae'n barnu ei bod yn briodol,

a bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes, gan wybod hynny, i orchymyn o'r fath yn euog o dramgydd.

(6) Bydd gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid yn peidio â bod yn effeithiol-

- (a) yn achos gorchymyn a wnaed o dan baragraff (1), pan fydd yr awdurdod gorfodi wedi dyroddi dystysgrif i'r perwyl ei fod wedi'i fodloni bod y gweithredydd busnes bwyd wedi cymryd mesurau digonol i sicrhau nad yw'r amod ynglŷn â risg iechyd yn cael ei fodloni mwyach mewn perthynas â'r busnes bwyd; a
- (b) yn achos gorchymyn a wnaed o dan baragraff (4), pan fydd y llys yn rhoi cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw.

(7) Rhaid i'r awdurdod gorfodi ddyroddi dystysgrif o dan is-baragraff (a) o baragraff (6) cyn pen tri diwrnod ar ôl iddo gael ei fodloni yn y modd a grybwyllywd yn yr is-baragraff hwnnw; ac ar gais gan y gweithredydd busnes bwyd am dystysgrif o'r fath, rhaid i'r awdurdod -

- (a) penderfynu, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 14 diwrnod, a yw wedi'i fodloni felly neu beidio; a
- (b) os bydd yn penderfynu nad yw wedi'i fodloni felly, rhoi hysbysiad i'r gweithredydd busnes bwyd o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(8) Rhaid i'r llys roi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (b) o baragraff (6) os yw'r llys, ar ôl cael cais gan y gweithredydd busnes bwyd, yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny gan roi sylw i holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys yn benodol ymddygiad y gweithredydd busnes bwyd ers gwneud y gorchymyn; ond ni fydd unrhyw gais o'r fath yn cael ei ystyried os yw'n cael ei wneud-

- (b) the court by or before which the operator is so convicted thinks it proper to do so in all the circumstances of the case,

the court may, by an order, impose a prohibition on the food business operator participating in the management of any food business, or any food business of a class or description specified in the order.

(5) As soon as practicable after the making of an order under paragraph (1) or (4) (in these Regulations referred to as a "hygiene prohibition order"), the enforcement authority must-

- (a) serve a copy of the order on the relevant food business operator; and
- (b) in the case of an order made under paragraph (1), affix a copy of the order in a conspicuous position on such premises used for the purposes of the food business as they consider appropriate,

and any person who knowingly contravenes such an order will be guilty of an offence.

(6) A hygiene prohibition order will cease to have effect-

- (a) in the case of an order made under paragraph (1), on the issue by the enforcement authority of a certificate to the effect that they are satisfied that the food business operator has taken sufficient measures to secure that the health risk condition is no longer fulfilled with respect to the food business; and
- (b) in the case of an order made under paragraph (4), on the giving by the court of a direction to that effect.

(7) The enforcement authority must issue a certificate under sub-paragraph (a) of paragraph (6) within three days of their being satisfied as mentioned in that sub-paragraph; and on an application by the food business operator for such a certificate, the authority must-

- (a) determine, as soon as is reasonably practicable and in any event within 14 days, whether or not they are so satisfied; and
- (b) if they determine that they are not so satisfied, give notice to the food business operator of the reasons for that determination.

(8) The court must give a direction under sub-paragraph (b) of paragraph (6) if, on an application by the food business operator, the court thinks it proper to do so having regard to all the circumstances of the case, including in particular the conduct of the food business operator since the making of the order; but no such application will be entertained if it is made-

- (a) cyn pen chwe mis ar ôl gwneud y gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid; neu
- (b) cyn pen tri mis ar ôl i'r gweithredydd busnes bwyd wneud cais blaenorol am gyfarwyddyd o'r fath.

(9) Pan fo llys ynadon yn gwneud gorchymyn o dan baragraff (2) o reoliad 8 mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd, bydd paragraff (1) yn gymwys fel petai'r gweithredydd busnes bwyd wedi'i gollfarnu gan y llys o dramgydd o dan y Rheoliadau hyn.

(10) Pan fo'r ffaith bod tramgwydd wedi'i gyflawni gan weithredydd busnes bwyd yn arwain at gollfarnu person arall yn unol â rheoliad 10, bydd paragraff (4) yn gymwys o ran y person arall hwnnw yn yr un modd ag y mae'n gymwys o ran y gweithredydd busnes bwyd a dehonglir unrhyw gyfeiriad ym mharagraff (5) neu (8) at y gweithredydd busnes bwyd yn unol â hynny.

### **Hysbysiadau a gorchmyntion gwahardd brys at ddibenion hylendid**

**8.-(1)** Os yw swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi wedi'i fodloni bod yr amod ynglŷn â risg iechyd wedi'i fodloni o ran unrhyw fusnes bwyd, caiff y swyddog osod y gwaharddiad priodol drwy hysbysiad a gyflwynir i'r gweithredydd busnes bwyd perthnasol (hysbysiad y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid").

(2) Os yw llys ynadon wedi'i fodloni, ar gais swyddog o'r fath, fod yr amod ynglŷn â risg iechyd wedi'i fodloni o ran unrhyw fusnes bwyd, rhaid i'r llys, drwy orchymyn (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "gorchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid"), osod y gwaharddiad priodol.

(3) Ni chaiff swyddog o'r fath wneud cais am orchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid oni bai bod y swyddog, o leiaf un diwrnod cyn dyddiad y cais, wedi cyflwyno hysbysiad i'r gweithredydd busnes bwyd perthnasol o'i fwriad i wneud cais am y gorchymyn.

(4) Bydd paragraffau (2) a (3) o reoliad 7 yn gymwys at ddibenion y rheoliad hwn yn yr un modd ag y maent yn gymwys at ddibenion y rheoliad hwnnw, ond fel petai'r cyfeiriad ym mharagraff (2) at risg o niwed i iechyd yn gyfeiriad at risg agos o niwed.

(5) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyflwyno hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid, rhaid i swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi osod copi o'r hysbysiad mewn lle amlwg ar unrhyw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes bwyd ag y mae'n barnu ei bod yn briodol; a bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes, gan wybod hynny, i'r hysbysiad hwnnw yn euog o dramgydd.

- (a) within six months of the making of the hygiene prohibition order; or
- (b) within three months of the making by the food business operator of a previous application for such a direction.

(9) Where a magistrates' court makes an order under paragraph (2) of regulation 8 with respect to any food business, paragraph (1) will apply as if the food business operator had been convicted by the court of an offence under these Regulations.

(10) Where the commission of an offence by a food business operator leads to the conviction of another person pursuant to regulation 10, paragraph (4) will apply in relation to that other person as it applies in relation to the food business operator and any reference in paragraph (5) or (8) to the food business operator will be construed accordingly.

### **Hygiene emergency prohibition notices and orders**

**8.-(1)** If an authorised officer of an enforcement authority is satisfied that the health risk condition is fulfilled with respect to any food business the officer may by a notice served on the relevant food business operator (in these Regulations referred to as a "hygiene emergency prohibition notice") impose the appropriate prohibition.

(2) If a magistrates' court is satisfied, on the application of such an officer, that the health risk condition is fulfilled with respect to any food business, the court must, by an order (in these Regulations referred to as a "hygiene emergency prohibition order"), impose the appropriate prohibition.

(3) Such an officer may not apply for a hygiene emergency prohibition order unless, at least one day before the date of the application, the officer has served notice on the relevant food business operator of his or her intention to apply for the order.

(4) Paragraphs (2) and (3) of regulation 7 apply for the purposes of this regulation as they apply for the purposes of that regulation, but as if the reference in paragraph (2) to risk of injury to health were a reference to imminent risk of injury.

(5) As soon as practicable after the service of a hygiene emergency prohibition notice, an authorised officer of an enforcement authority must affix a copy of the notice in a conspicuous position on such premises used for the purposes of the food business as he or she considers appropriate; and any person who knowingly contravenes such a notice will be guilty of an offence.

(6) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid, rhaid i swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi-

- (a) cyflwyno copi o'r gorchymyn i'r gweithredydd busnes bwyd perthnasol; a
- (b) gosod copi o'r gorchymyn mewn lle amlwg ar unrhyw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes bwyd y mae'r swyddog yn barnu ei bod yn briodol,

a bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes, gan wybod hynny, i'r gorchymyn hwnnw yn euog o dramgwydd.

(7) Bydd hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid yn peidio â bod yn effeithiol-

- (a) os na wneir unrhyw gais am orchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid o fewn y cyfnod o dri diwrnod gan ddechrau o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw; neu
- (b) os gwneir cais o'r fath felly, adeg penderfynu neu ollwng y cais.

(8) Bydd hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid neu orchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid yn peidio â bod yn effeithiol pan fydd yr awdurdod gorfodi yn dyroddi dystysgrif i'r perwyl ei fod wedi'i fodloni bod y gweithredydd busnes bwyd wedi cymryd mesurau digonol i sicrhau nad yw'r amod ynglyn â risg iechyd yn cael ei fodloni mwyach o ran y busnes bwyd.

(9) Rhaid i'r awdurdod gorfodi ddyroddi dystysgrif o dan baragraff (8) cyn pen tri diwrnod ar ôl iddo gael ei fodloni yn y modd a grybwyllyd yn y paragraff hwnnw; a phan fydd y gweithredydd busnes bwyd yn cyflwyno cais am dystysgrif o'r fath, rhaid i'r awdurdod-

- (a) penderfynu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 14 diwrnod a yw wedi'i fodloni felly neu beidio; a
- (b) os yw'n penderfynu nad yw wedi'i fodloni felly, rhoi hysbysiad i'r gweithredydd busnes bwyd o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(10) Pan fo hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid yn cael ei gyflwyno i weithredydd busnes bwyd, rhaid i'r awdurdod gorfodi ddigolledu'r gweithredydd am unrhyw golled a gafwyd oherwydd yffaith bod y gweithredydd wedi cydymffurfio â'r hysbysiad-

- (a) oni chaiff cais am orchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid ei wneud o fewn y cyfnod o dri diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad; a

(6) As soon as practicable after the making of a hygiene emergency prohibition order, an authorised officer of an enforcement authority must-

- (a) serve a copy of the order on the relevant food business operator; and
- (b) affix a copy of the order in a conspicuous position on such premises used for the purposes of the food business as the officer considers appropriate,

and any person who knowingly contravenes such an order will be guilty of an offence.

(7) A hygiene emergency prohibition notice will cease to have effect-

- (a) if no application for a hygiene emergency prohibition order is made within the period of three days beginning with the service of the notice, at the end of that period; or
- (b) if such an application is so made, on the determination or abandonment of the application.

(8) A hygiene emergency prohibition notice or a hygiene emergency prohibition order will cease to have effect on the issue by the enforcement authority of a certificate to the effect that they are satisfied that the food business operator has taken sufficient measures to secure that the health risk condition is no longer fulfilled with respect to the food business.

(9) The enforcement authority must issue a certificate under paragraph (8) within three days of their being satisfied as mentioned in that paragraph; and on an application by the food business operator for such a certificate, the authority must-

- (a) determine as soon as is reasonably practicable and in any event within 14 days whether or not they are so satisfied; and
- (b) if they determine that they are not so satisfied, give notice to the food business operator of the reasons for that determination.

(10) Where a hygiene emergency prohibition notice is served on a food business operator, the enforcement authority must compensate the operator in respect of any loss suffered by reason of the operator's complying with the notice unless-

- (a) an application for a hygiene emergency prohibition order is made within the period of three days beginning with the service of the notice; and

- (b) oni fydd y llys yn datgan ei fod wedi'i fodloni, ar ôl gwrando'r cais, fod yr amod ynglŷn â risg iechyd wedi'i fodloni mewn perthynas â'r busnes bwyd adeg cyflwyno'r hysbysiad,

a gellir penderfynu drwy gymrodeddu unrhyw gwestiwn dadleuol ynglŷn â'r hawl i gael unrhyw iawndal sy'n daladwy o dan y paragraff hwn neu swm yr iawndal hwnnw.

### Hysbysiadau camau cywiros a hysbysiadau cadw

**9.-(1)** Pan fo'n ymddangos i swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi mewn perthynas â sefydliad sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Erthygl 4(2) o Reoliad 853/2004-

- (a) bod unrhyw un o ofynion y Rheoliadau Hylendid yn cael ei dorri; neu
- (b) bod arolygiad o dan y Rheoliadau Hylendid yn cael ei lesteirio,

caiff y swyddog, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r gweithredydd busnes bwyd perthnasol neu'r person a awdurdodwyd yn briodol i gynrychioli'r gweithredydd (hysbysiad y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "hysbysiad camau cywiros")-

- (c) gwahardd defnyddio unrhyw gyfarpar neu unrhyw ran o'r sefydliad a bennir yn yr hysbysiad;
- (ch) gosod amodau ar gyflawni unrhyw broses neu wahardd cyflawni unrhyw broses;
- (d) ei gwneud yn ofynnol i'r gyfradd weithredu gael ei lleihau i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad, neu i gael ei stopio'n gyfan gwbl.

(2) Rhaid cyflwyno hysbysiad camau cywiros cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan nodi'r rheswm pam y mae'n cael ei gyflwyno.

(3) Os yw'n cael ei gyflwyno o dan baragraff (1)(a), rhaid iddo enwi'r toriad a'r camau y mae eu hangen i'w gywiros.

(4) Rhaid i swyddog awdurdodedig i'r awdurdod gorfodi y cyflwynodd ei swyddog awdurdodedig yr hysbysiad camau cywiros gwreiddiol, cyn gynted ag y caiff ei fodloni bod y camau hynny wedi'u cymryd, dynnu'r hysbysiad yn ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig pellach a gyflwynir i'r gweithredydd busnes bwyd neu'r person a awdurdodwyd yn briodol i gynrychioli'r gweithredydd.

(5) Caiff swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi, mewn sefydliad sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Erthygl 4(2) o Reoliad 853/2004, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r gweithredydd busnes bwyd perthnasol neu'r person a awdurdodwyd yn briodol i gynrychioli'r gweithredydd hwnnw (hysbysiad y cyfeirir ato yn y rheoliad hyn fel "hysbysiad cadw") ei gwneud yn ofynnol i unrhyw anifail neu fwyd gael ei gadw at ddibenion archwilio (gan gynnwys cymryd samplau).

- (b) the court declares itself satisfied, on the hearing of the application, that the health risk condition was fulfilled with respect to the food business at the time when the notice was served,

and any disputed question as to the right to or the amount of any compensation payable under this paragraph is determinable by arbitration.

### Remedial action notices and detention notices

**9.-(1)** Where it appears to an authorised officer of an enforcement authority that in respect of an establishment subject to approval under Article 4(2) of Regulation 853/2004-

- (a) any of the requirements of the Hygiene Regulations is being breached; or
- (b) inspection under the Hygiene Regulations is being hampered,

the officer may, by a notice in writing served on the relevant food business operator or the operator's duly authorised representative (in these Regulations referred to as a "remedial action notice")-

- (c) prohibit the use of any equipment or any part of the establishment specified in the notice;
- (d) impose conditions upon or prohibit the carrying out of any process; or
- (e) require the rate of operation to be reduced to such extent as is specified in the notice, or to be stopped completely.

(2) A remedial action notice must be served as soon as practicable stating why it is being served.

(3) If it is served under paragraph (1)(a), it must specify the breach and the action needed to remedy it.

(4) An authorised officer of the enforcement authority whose authorised officer served the original remedial action notice must, as soon as he or she is satisfied that such action has been taken, withdraw the notice by a further notice in writing served on the food business operator or the operator's duly authorised representative.

(5) An authorised officer of an enforcement authority may, at an establishment subject to approval under Article 4(2) of Regulation 853/2004, by a notice in writing served on the relevant food business operator or the operator's duly authorised representative (in this regulation referred to as a "detention notice") require the detention of any animal or food for the purposes of examination (including the taking of samples).

(6) Rhaid i swyddog awdurdodedig i'r awdurdod gorfodi y cyflwynodd ei swyddog yr hysbysiad cadw gwreiddiol, cyn gynted ag y caiff ei fodloni nad oes angen cadw'r anifail neu'r bwyd mwyach, dynnu'r hysbysiad yn ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig pellach a gyflwynir i'r gweithredydd busnes bwyd neu'r person a awdurdodwyd yn briodol i gynrychioli'r gweithredydd hwnnw.

(7) Bydd unrhyw berson sy'n methu cydymffurfio, hysbysiad camau cywiros neu hysbysiad cadw yn euog o dramgydd.

### Tramgwyddau oherwydd bai person arall

**10.** Pan fo tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn cael ei gyflawni gan unrhyw berson oherwydd gweithred neu ddifyg gweithred rhyw berson arall, bydd y person arall hwnnw yn euog o'r tramgwydd; a chaniateir i berson gael ei gollfarnu o'r tramgwydd yn rhinwedd y rheoliad hwn p'un a ddygir achos cyfreithiol yn erbyn y person a grybwyllyd yn gyntaf neu beidio.

### Amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy

**11.-(1)** Mewn unrhyw achos cyfreithiol am dramgydd o dan y Rheoliadau hyn, mae'n amddiffyniad, yn ddarostyngedig i baragraff (2), i'r sawl a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd ei hun neu osgoi iddo gael ei gyflawni gan berson sydd o dan ei reolaeth.

(2) Os yw'r amddiffyniad sy'n cael ei ddarparu gan baragraff (1) mewn unrhyw achos yn cynnwys honni bod y tramgwydd wedi'i gyflawni oherwydd gweithred neu ddifyg gweithred person arall, neu ddibyniad ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson arall, ni fydd gan y sawl a gyhuddir, heb gamiatâd y llys, hawl i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw, oni bai bod y sawl a gyhuddir-

- (a) o leiaf saith niwrnod clir cyn y gwrandoediad; a
- (b) pan fo'r sawl a gyhuddir wedi ymddangos o'r blaen gerbron llys mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig, o fewn un mis i'r ymddangosiad cyntaf hwnnw gan y sawl a gyhuddir,

wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r erlynnyd yn rhoi unrhyw wybodaeth a fyddai'n fod i adnabod neu i helpu i adnabod y person arall hwnnw ag a oedd yn ei feddiant bryd hynny.

(6) An authorised officer of the enforcement authority whose officer served the original detention notice must, as soon as he or she is satisfied that the animal or food need no longer be detained, withdraw the notice by a further notice in writing served on the food business operator or the operator's duly authorised representative.

(7) Any person who fails to comply with a remedial action notice or a detention notice will be guilty of an offence.

### Offences due to fault of another person

**10.** Where the commission by any person of an offence under these Regulations is due to the act or default of some other person, that other person will be guilty of the offence; and a person may be convicted of the offence by virtue of this regulation whether or not proceedings are taken against the first-mentioned person.

### Defence of due diligence

**11.-(1)** In any proceedings for an offence under these Regulations, it will, subject to paragraph (2), be a defence for the accused to prove that he or she took all reasonable precautions and exercised all due diligence to avoid the commission of the offence by the accused or by a person under the accused's control.

(2) If in any case the defence provided by paragraph (1) involves the allegation that the commission of the offence was due to an act or default of another person, or to reliance on information supplied by another person, the accused will not, without leave of the court, be entitled to rely on that defence unless-

- (a) at least seven clear days before the hearing; and
- (b) where the accused has previously appeared before a court in connection with the alleged offence, within one month of the accused's first such appearance,

the accused has served on the prosecutor a notice in writing giving such information identifying or assisting in the identification of that other person as was then in his or her possession.

### RHAN III

#### GWEINYDDU A GORFODI

##### Caffael samplau

**12.** Caiff swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi-

- (a) prynu sampl o unrhyw fwyd, neu unrhyw sylwedd y gellir ei ddefnyddio i baratoi bwyd;
- (b) cymryd sampl o unrhyw fwyd, neu unrhyw sylwedd-
  - (i) sy'n ymddangos i'r swyddog ei fod yn fwyd neu'n sylwedd y bwriedir ei roi ar y farchnad neu y bwriadwyd ei roi ar y farchnad, ar gyfer ei fwyt gan bobl, neu
  - (ii) a geir gan swyddog ar neu mewn unrhyw fangre y mae'r swyddog wedi'i awdurdodi i fynd i mewn iddi gan neu o dan reoliad 14;
- (c) cymryd sampl o unrhyw ffynhonnell fwyd, neu sampl o unrhyw ddeunydd sydd mewn cysylltiad â'r ffynhonnell fwyd, a geir gan y swyddog ar neu mewn unrhyw fangre o'r fath; ac
- (ch)cymryd sampl o unrhyw eitem neu sylwedd a geir gan swyddog ar neu mewn unrhyw fangre o'r fath ac y mae gan y swyddog le i gred y gallai fod angen amdani neu amdano fel tystiolaeth mewn achos cyfreithiol o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn.

##### Dadansoddi etc samplau

**13.-(1)** Rhaid i swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi sydd wedi caffael sampl o dan reoliad 12-

- (a) os yw o'r farn y dylai'r sampl gael ei dadansoddi, ei chyflwyno i gael ei dadansoddi-
  - (i) gan y dadansoddydd cyhoeddus ar gyfer yr ardal y cafodd y sampl ei chaffael ynddi, neu
  - (ii) gan y dadansoddydd cyhoeddus ar gyfer yr ardal sydd wedi'i ffurfio o ardal yr awdurdod neu sy'n ei chynnwys;
- (b) os yw o'r farn y dylai'r sampl gael ei harchwilio, ei chyflwyno i gael ei harchwilio gan archwilydd bwyd.

(2) Caiff person, nad yw'n swyddog o'r fath, ac sydd wedi prynu unrhyw fwyd neu unrhyw sylwedd y gellir ei ddefnyddio i baratoi bwyd, gyflwyno sampl ohono-

- (a) i gael ei dadansoddi gan y dadansoddydd cyhoeddus ar gyfer yr ardal y prynwyd y bwyd neu'r sylwedd ynddi; neu
- (b) i gael ei harchwilio gan archwilydd bwyd.

### PART 3

#### ADMINISTRATION AND ENFORCEMENT

##### Procurement of samples

**12.** An authorised officer of an enforcement authority may-

- (a) purchase a sample of any food, or any substance capable of being used in the preparation of food;
- (b) take a sample of any food, or any such substance, which-
  - (i) appears to the officer to be intended for placing on the market or to have been placed on the market, for human consumption, or
  - (ii) is found by the officer on or in any premises which the officer is authorised to enter by or under regulation 14;
- (c) take a sample from any food source, or a sample of any contact material, which is found by the officer on or in any such premises; and
- (d) take a sample of any article or substance which is found by the officer on or in any such premises and which the officer has reason to believe may be required as evidence in proceedings under any of the provisions of these Regulations.

##### Analysis etc. of samples

**13.-(1)** An authorised officer of an enforcement authority who has procured a sample under regulation 12 must-

- (a) if he or she considers that the sample should be analysed, submit it to be analysed-
  - (i) by the public analyst for the area in which the sample was procured, or
  - (ii) by the public analyst for the area which consists of or includes the area of the authority;
- (b) if he or she considers that the sample should be examined, submit it to be examined by a food examiner.

(2) A person, other than such an officer, who has purchased any food, or any substance capable of being used in the preparation of food, may submit a sample of it-

- (a) to be analysed by the public analyst for the area in which the purchase was made; or
- (b) to be examined by a food examiner.

(3) Mewn unrhyw achos lle bwriedir cyflwyno sampl i'w dadansoddi o dan y rheoliad hwn, os yw swydd y dadansoddydd cyhoeddus ar gyfer yr ardal o dan sylw yn wag, rhaid i'r sampl gael ei chyflwyno i'r dadansoddydd cyhoeddus ar gyfer rhyw ardal arall.

(4) Mewn unrhyw achos lle bwriedir cyflwyno neu lle cyflwynir sampl i'w dadansoddi neu i'w harchwilio o dan y rheoliad hwn, os yw'r dadansoddydd bwyd neu'r archwilydd bwyd yn penderfynu nad yw'n gallu cyflawni'r dadansoddiad neu'r archwiliad am unrhyw reswm, rhaid iddo gyflwyno neu, yn ôl y digwydd, anfon y sampl i unrhyw ddadansoddydd bwyd arall neu archwilydd bwyd arall y bydd yn penderfynu arno.

(5) Rhaid i ddadansoddydd bwyd neu archwilydd bwyd ddadansoddi neu archwilio cyn gynted ag y bo'n ymarferol unrhyw sampl a gyflwynwyd iddo neu a anfonwyd ato o dan y rheoliad hwn, ond ac eithrio-

- (a) os ef yw'r dadansoddydd cyhoeddus ar gyfer yr ardal o dan sylw; a
- (b) os yw'r sampl wedi'i chyflwyno iddo ar gyfer dadansoddiad gan swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi,

caiff fynnu ymlaen llaw fod unrhyw ffi resymol y bydd yn gofynn amdani yn cael ei thalu.

(6) Rhaid i unrhyw ddadansoddydd bwyd neu archwilydd bwyd sydd wedi ddadansoddi neu wedi archwilio sampl roi i'r person y cafodd ei chyflwyno drwyddo dystysgrif sy'n nodi canlyniad y dadansoddiad neu'r archwiliad.

(7) Rhaid i unrhyw dystysgrif a roddir gan ddadansoddydd bwyd neu archwilydd bwyd o dan baragraff (6) gael ei llofnodi ganddo, ond caniateir i'r dadansoddiad neu'r archwiliad gael ei wneud gan unrhyw berson sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd.

(8) Mewn unrhyw achos cyfreithiol o dan y Rheoliadau hyn, bydd y ffaith bod un o'r partïon yn dangos-

- (a) dogfen sy'n honni ei bod yn dystysgrif a roddwyd gan ddadansoddydd bwyd neu archwilydd bwyd o dan baragraff (6); neu
- (b) dogfen a ddarparwyd iddo gan y parti arall fel un a oedd yn gopi o'r dystysgrif honno,

yn dystiolaeth ddigonol i'r ffeithiau a nodir ynddi oni bai, mewn achos sy'n dod o dan is-baragraff (a), bod y parti arall yn ei gwneud yn ofynnol i'r dadansoddydd bwyd neu'r archwilydd bwyd gael ei alw fel tyst.

(9) Yn y rheoliad hwn, pan fo dau neu ragor o ddadansoddwyr cyhoeddus yn cael eu penodi ar gyfer unrhyw ardal, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at y dadansoddydd cyhoeddus ar gyfer yr ardal honno fel cyfeiriad at y naill neu'r llall ohonynt neu at unrhyw un ohonynt.

(3) If, in any case where a sample is proposed to be submitted for analysis under this regulation, the office of public analyst for the area in question is vacant, the sample must be submitted to the public analyst for some other area.

(4) If, in any case where a sample is proposed to be or is submitted for analysis or examination under this regulation, the food analyst or examiner determines that he or she is for any reason unable to perform the analysis or examination, the sample must be submitted or, as the case may be, sent by him or her to such other food analyst or examiner as he or she may determine.

(5) A food analyst or examiner must analyse or examine as soon as practicable any sample submitted or sent to him or her under this regulation, but may, except where-

- (a) he or she is the public analyst for the area in question; and
- (b) the sample is submitted to him or her for analysis by an authorised officer of an enforcement authority,

demand in advance the payment of such reasonable fee as he or she may require.

(6) Any food analyst or examiner who has analysed or examined a sample must give to the person by whom it was submitted a certificate specifying the result of the analysis or examination.

(7) Any certificate given by a food analyst or examiner under paragraph (6) must be signed by him or her, but the analysis or examination may be made by any person acting under his or her direction.

(8) In any proceedings under these Regulations, the production by one of the parties-

- (a) of a document purporting to be a certificate given by a food analyst or examiner under paragraph (6); or
- (b) of a document supplied to him or her by the other party as being a copy of such a certificate,

will be sufficient evidence of the facts stated in it unless, in a case falling within sub-paragraph (a), the other party requires that the food analyst or examiner be called as a witness.

(9) In this regulation where two or more public analysts are appointed for any area, any reference in this regulation to the public analyst for that area will be construed as a reference to either or any of them.

(10) Mae Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990(1) yn gymwys o ran sampl a gaffaelir gan swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd o dan reoliad 12 fel pe bai'n sampl a gaffaelwyd gan swyddog awdurdodedig o dan adran 29 o'r Ddeddf.

(11) Rhaid i dystysgrif a roddir gan ddadansoddydd bwyd neu archwilydd bwyd o dan baragraff 6 fod yn y ffurf a bennir yn Atodlen 3 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990.

## Pwerau mynediad

14.-(1) Mae gan swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd, wedi iddo ddangos, os gofynnir iddo wneud hynny, ryw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos ei awdurdod, hawl ar bob adeg resymol-

- (a) i fynd i mewn i unrhyw fangre o fewn ardal, neu, yn ôl y digwydd, dosbarth yr awdurdod er mwyn darganfod a oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau Hylendid yn cael neu wedi cael ei thorri;
- (b) i fynd i mewn i unrhyw fangre, boed honno o fewn neu'r tu allan i ardal neu, yn ôl y digwydd, dosbarth yr awdurdod, er mwyn darganfod a oes ar y fangre unrhyw dystiolaeth am unrhyw doriad o'r fath yn yr ardal honno neu'r dosbarth hwnnw; ac
- (c) i fynd i mewn i unrhyw fangre er mwyn i'r awdurdod gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau Hylendid,

ond ni chaniateir i'r swyddog fynnu cael mynediad fel mater o hawl i unrhyw fangre sy'n cael ei defnyddio fel tîr annedd preifat yn unig oni bai bod 24 awr o rybudd am y bwriad i ddod i mewn i'r fangre wedi'u rhoi i'r meddiannydd.

(2) Mae gan swyddog awdurdodedig i'r Asiantaeth, wedi iddo ddangos, os gofynnir iddo wneud hynny, ryw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos ei awdurdod, hawl ar bob adeg resymol i fynd i mewn i unrhyw fangre er mwyn-

- (a) darganfod a oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau Hylendid yn cael neu wedi cael ei thorri;
- (b) darganfod a oes ar y fangre unrhyw dystiolaeth am unrhyw doriad o'r fath; ac
- (c) i'r Asiantaeth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau Hylendid,

ond ni chaniateir i'r swyddog fynnu cael mynediad fel mater o hawl i unrhyw fangre sy'n cael ei defnyddio fel tîr annedd preifat yn unig oni bai bod 24 awr o rybudd am y bwriad i ddod i mewn i'r fangre wedi'u rhoi i'r meddiannydd.

(10) The Food Safety (Sampling and Qualifications) Regulations 1990(1) apply in relation to a sample procured by an authorised officer of a food authority under regulation 12 as if it were a sample procured by an authorised officer under section 29 of the Act.

(11) The certificate given by a food analyst or examiner under paragraph (6) must be in the form set out in Schedule 3 to the Food Safety (Sampling and Qualifications) Regulations 1990.

## Powers of entry

14.-(1) An authorised officer of a food authority will, on producing, if so required, some duly authenticated document showing his or her authority, have a right at all reasonable hours-

- (a) to enter any premises within the authority's area for the purpose of ascertaining whether there is or has been on the premises any contravention of the provisions of the Hygiene Regulations;
- (b) to enter any premises, whether within or outside the authority's area for the purpose of ascertaining whether there is on the premises any evidence of any such contravention within that area; and
- (c) to enter any premises for the purpose of the performance by the authority of their functions under the Hygiene Regulations,

but admission to any premises used only as a private dwelling-house may not be demanded as of right unless 24 hours' notice of the intended entry has been given to the occupier.

(2) An authorised officer of the Agency will, on producing if so required some duly authenticated document showing his or her authority, have a right at all reasonable hours to enter any premises for the purpose of-

- (a) ascertaining whether there is or has been on the premises any contravention of the provisions of the Hygiene Regulations;
- (b) ascertaining whether there is on the premises any evidence of any such contravention; and
- (c) the performance by the Agency of its functions under the Hygiene Regulations,

but admission to any premises used only as a private dwelling-house may not be demanded as of right unless 24 hours' notice of the intended entry has been given to the occupier.

(1) O.S. 1990/2463, y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 1990/2463, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(3) Os yw ynad heddwch, ar ôl cael gwybodaeth ysgrifenedig ar Iw, wedi'i fodloni bod sail resymol dros fynd ar unrhyw fangre at unrhyw ddiben a grybwyllyd ym mharagraff (1) neu (2) a naill ai-

- (a) bod mynediad i'r fangre wedi'i wrthod, neu y synhwyrir y caiff ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi'i roi i'r meddiannydd; neu
- (b) y byddai cais am fynediad, neu roi hysbysiad o'r fath, yn mynd yn groes i'r amcan o fynd i mewn, neu fod yr achos yn achos brys, neu fod y fangre heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro,

caiff yr ynad drwy warant a lofnodir ganddo awdurdodi'r swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre, gan ddefnyddio grym rhesymol os bydd angen.

(4) Bydd pob gwarant a roddir o dan y rheoliad hwn yn parhau mewn grym am gyfnod o un mis.

(5) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn, neu warant a ddyroddwyd odano, fynd â'r personau eraill y mae'n barnu eu bod yn angenheidiol gydag ef, ac wrth ymadael ag unrhyw fangre sydd heb ei meddiannu ac y mae'r swyddog wedi mynd i mewn iddi yn rhinwedd gwarant o'r fath, rhaid iddo ei gadael yn fangre sydd wedi'i diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad diawdurdod ag yr oedd pan aeth yno yn gyntaf.

(6) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn, neu warant a ddyroddwyd odano, arolygu unrhyw gofnodion (ar ba ffurf bynnag y maent yn cael eu cadw) sy'n ymwneud â busnes bwyd, a phan fo'r cofnodion hynny yn cael eu storio ar unrhyw ffurf electronig-

- (a) caiff fynd at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw aparatws neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r cofnodion, a'u harolygu a gwirio eu gweithrediad; a
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, yr aparatws neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'u gweithredu, roi i'r swyddog unrhyw gymorth y mae arno angen rhesymol amdano.

(7) Caiff unrhyw swyddog sy'n arfer unrhyw bŵer a roddwyd gan baragraff (6)-

- (a) cymryd i'w feddiant a chadw unrhyw gofnodion y mae gan y swyddog le i gred y gallai fod angen amdanynt fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol o dan y Rheoliadau hyn; a

(3) If a justice of the peace, on sworn information in writing, is satisfied that there is reasonable ground for entry onto any premises for any such purpose as is mentioned in paragraph (1) or (2) and either-

- (a) that admission to the premises has been refused, or a refusal is apprehended, and that notice of the intention to apply for a warrant has been given to the occupier; or
- (b) that an application for admission, or the giving of such a notice, would defeat the object of the entry, or that the case is one of urgency, or that the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent,

the justice may by warrant signed by him or her authorise the authorised officer to enter the premises, if need be by reasonable force.

(4) Every warrant granted under this regulation will continue in force for a period of one month.

(5) An authorised officer entering any premises by virtue of this regulation, or of a warrant issued under it, may take with him or her such other persons as he or she considers necessary, and on leaving any unoccupied premises which the officer has entered by virtue of such a warrant must leave them as effectively secured against unauthorised entry as that in which they were found.

(6) An authorised officer entering premises by virtue of this regulation, or of a warrant issued under it, may inspect any records (in whatever form they are held) relating to a food business and, where any such records are stored in any electronic form-

- (a) may have access to, and inspect and check the operation of, any computer and any associated apparatus or material which is or has been in use in connection with the records; and
- (b) may require any person having charge of, or otherwise concerned with the operation of, the computer, apparatus or material to afford the officer such assistance as he or she may reasonably require.

(7) Any officer exercising any power conferred by paragraph (6) may-

